

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Absolute Dental Care, Dinbych-y-  
pysgod

Dyddiad arolygu: 11 Rhagfyr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mawrth  
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	21
4.	Beth nesaf? .....	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Absolute Dental Care yn Clifton Rock, Dinbych-y-pysgod SA70 7LG, o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 11 Rhagfyr 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Absolute Dental Care yn darparu profiad o ansawdd i gleifion, gyda staff cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd y practis yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd modern a oedd i'w weld yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda.

I gefnogi'r uchod, roedd y practis wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau gwella ansawdd ac roedd y staff yn cael y gefnogaeth a'r hyfforddiant priodol i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Rydym wedi gwneud rhai mân argymhellion ar gyfer gwella, yn unol â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Buddsoddi mewn technoleg er budd y cleifion
- Pwyslais ar hyfforddiant i'r staff
- Cofnodion o ansawdd uchel
- Yr amrywiaeth o weithgareddau gwella ansawdd.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried ffyrdd eraill o gael adborth gan y cleifion
- Diwygio'r ffordd y caiff archwiliadau atal a rheoli heintiau eu cynnal
- Sicrhau bod aelod arall o'r staff yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Cefndir y gwasanaeth

Mae Absolute Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Ninbych-y-pysgod a'r cyffiniau.

Mae gan y practis dîm o bedwar aelod o staff sy'n cynnwys un deintydd cofrestredig a thair nyrs ddeintyddol, y mae un ohonynt yn rheolwr y practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat, gan gynnwys:

- Triniaethau deintyddol cyffredin
- Gwynnu dannedd
- Pontydd (gan gynnwys cyfarpar gweithgynhyrchu CEREC<sup>1</sup> ar y safle), dannedd doddi a mewnbliadau (gan gynnwys sgrinio CBCT<sup>2</sup>).

---

<sup>1</sup> Mae peiriant CEREC yn dylunio ac yn creu atgyweiriadau dannedd heb fetel.

<sup>2</sup> Math arbennig o gyfarpar pelydr-X yw sganiwr CT pelydr côn deintyddol, sy'n cael ei ddefnyddio pan nad yw pelydrau-X cyffredin o'r dannedd neu'r wyneb yn ddigonol ar gyfer y driniaeth dan sylw.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Yn gyffredinol, gwelsom fod Absolute Dental Care yn darparu profiad cadarnhaol i gleifion yn y practis a gwelsom fod prosesau addas ar waith i gefnogi hyn.

Gwelsom enghreifftiau proffesiynol a chyfeillgar o ryngweithio â'r cleifion drwy gydol y broses arolygu. Gwelsom hefyd fod y wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion am eu triniaeth yn addas ac y gall y cleifion gael gofal mewn modd amserol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 18 o holiaduron. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*"Practis proffesiynol a chyfeillgar"*

*"Rwy' bob amser yn teimlo fy mod yn cael fy mharchu, practis dymunol a hynod broffesiynol sy'n gwneud i chi deimlo'n gyfforddus a'r amgylchedd"*

*"Cyfarpar a gwasanaeth o'r radd flaenaf"*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Meddai un claf:

*"Dim byd - weithiau, efallai y byddai egluro'r ôl-ofal cyn i mi gael y driniaeth yn ei gwneud hi'n haws i mi ei ddeall"*



## **Cadw'n iach**

### **Hybu, diogelu a gwella iechyd**

Gwelsom fod amrywiaeth dda o wybodaeth ysgrifenedig am ofal ataliol a hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion ei darllen tra roeddent ar y safle. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am feysydd fel rhoi'r gorau i smygu a chlefyd y deintgig.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

### **Gofal ag urddas**

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom amrywiaeth o staff yn siarad â chleifion yn bersonol a dros y ffôn mewn modd cwrtais a phroffesiynol. Cadarnhaodd y staff, pe bai claf am gael sgwrs breifat yna byddai hyn yn digwydd yn un o'r deintyddfeydd a oedd ar gael. Gwelsom hefyd fod drysau'r deintyddfeydd ar gau pan oedd cleifion yn derbyn triniaeth er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd polisi cyfrinachedd a diogelu data cynhwysfawr ar waith yn y practis er mwyn diogelu preifatrwydd y cleifion. Roedd hwn yn ymdrin â materion megis diogelu manylion cleifion, cael gafael ar gofnodion a datgelu gwybodaeth i drydydd partiön.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o'r safonau gofal y dylent eu cael gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Lle y bo'n gymwys, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a bod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth. Cafodd hyn ei gadarnhau hefyd yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom.

Gwelsom fod rhestr prisiau ar gyfer triniaethau preifat wedi'i harddangos yn yr ystafell aros, er mwyn helpu'r cleifion i ddeall y costau sy'n gysylltiedig â'u triniaeth.

Roedd copïau o daflen wybodaeth i gleifion y practis ar gael yn ardal y dderbynfa er mwyn i'r cleifion ei darllen a'i chadw. Roedd nifer o bolisïau'r practis, fel y weithdrefn gwyno, hefyd wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Roedd hyn hefyd yn cynnwys y datganiad o ddiben<sup>3</sup> a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom fod y practis yn arddangos enwau a chymwysterau pob aelod o'r tîm deintyddol mewn ardal lle roedd yn hawdd i'r cleifion eu gweld, fel sy'n ofynnol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod gan y practis ddeintydd Cymraeg a'i fod yn gallu rhoi gwasanaeth dwyieithog i'r cleifion. Gwelsom hefyd fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn Gymraeg.

Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith 'bob amser'.

I gleifion nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, dywedodd y practis wrthym y byddai'n gwneud pob ymdrech i ddysgu am anghenion y cleifion, gan gynnwys eu hanghenion iaith, cyn eu hapwyntiad cyntaf.

### Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi pan fyddent yn cyrraedd, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Gwelsom fod manylion am sut i gael gafael ar ofal brys y tu allan i oriau wedi'u harddangos y tu allan i'r practis a dywedwyd wrthym fod yr un wybodaeth ar gael i'r cleifion ar system peiriant ateb y practis. Ar ôl i glaf adael neges ar y

---

<sup>3</sup> Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

peiriant ateb, caiff y neges ei hanfon ymlaen at aelod o'r tîm i ymateb iddi cyn gynted â phosibl.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y deintydd yn eu holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Mae hyn yn ofynnol gan ganllawiau proffesiynol i helpu deintydd i ddeall clefydau posibl neu i nodi'r feddyginiaeth a allai effeithio ar driniaeth ddeintyddol claf. O'r sampl o gofnodion cleifion a welsom gennym, gwnaethom gadarnhau bod hanes cleifion yn cael ei gofnodi'n gyson ac yn briodol.

Fel y gwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y practis wedi buddsoddi mewn technoleg, gan gynnwys sganiwr CBCT<sup>4</sup> a pheiriant CEREC<sup>5</sup>, sy'n galluogi'r practis i osod mewnbaniadau a chreu corunau a rhai pontydd ar y safle. Mae hyn yn golygu bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu mewn ffordd gyfleus ac effeithlon i'r cleifion.

Roedd y driniaeth a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â datganiad o ddiben y practis<sup>6</sup>.

---

<sup>4</sup> Math arbennig o gyfarpar pelydr-X yw sganiwr CT pelydr côn deintyddol, sy'n cael ei ddefnyddio pan nad yw pelydrau-X cyffredin o'r dannedd neu'r wyneb yn ddigonol ar gyfer y driniaeth dan sylw.

<sup>5</sup> Mae peiriant CEREC yn dylunio ac yn creu atgyweiriadau dannedd heb fetel.

<sup>6</sup> Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

## Hawliau pobl

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith yn y practis sy'n dangos ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael triniaeth deg. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, roedd y polisi'n cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau a thriniaethau i bob claf, beth bynnag fo'i nodweddion gwarchoddedig<sup>7</sup>.

Roedd gan y practis bolisi cleifion newydd fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion newydd i'r practis. Roedd y polisi'n cynnwys yr hyn y gall y cleifion ei ddisgwyl gan y practis, gwybodaeth am gymhwysedd a'r driniaeth a oedd ar gael iddynt.

O ran mynediad ffisegol, mae'r practis wedi'i leoli wrth ymyl nifer o feysydd parcio cyhoeddus. Mae'r practis ar ddau lawr, ond mae'r ystafell aros, y dderbynfa, un o'r ddwy ddeintyddfa a'r toiledau ar y llawr gwaelod.

## Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y practis yn defnyddio sawl dull i gasglu adborth gan y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthu holiaduron boddhad i'r cleifion yn ad-hoc, a chofnodi adborth llafar yn ffeiliau'r cleifion ac yng nghofnodion y cyfarfodydd staff. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd fod y practis yn ffonio'r cleifion ar ôl iddynt gael triniaeth er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth. Nodwyd gennym fod hyn yn enghraifft o arfer nodedig.

Er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth yn ddienw neu heb gael eu cymell gan y practis, efallai yr hoffai'r practis ystyried ffyrdd eraill o alluogi'r cleifion i roi adborth. Er enghraifft, rhoi ffurflenni sylwadau neu adborth yn yr ystafell aros.

Roedd y weithdrefn ffurfiol i'w dilyn gan gleifion a oedd am wneud cwyn neu godi pryder am eu gofal, wedi'i hamlinellu mewn polisi cwynion, a oedd i'w weld yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn yn galluogi'r staff i ymdrin ag unrhyw gwynion o'r fath yn effeithiol ac yn amserol ac roedd yn gyson â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

---

<sup>7</sup> Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn drosedd gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodwedd warchoddedig. <https://www.equalityhumanrights.com/cy/equality-act/nodweddion-gwarchoddedig>

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried ffyrdd eraill o alluogi'r cleifion i roi adborth.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

At ei gilydd, roedd y practis yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom fod y practis yn fodern ac roedd i'w weld yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i gefnogi hyn.

Roedd y practis wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau gwella ansawdd ac adlewyrchwyd hyn yn ein canfyddiadau.

Roedd y cofnodion yn y sampl o nodiadau cleifion a welsom yn ardderchog.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant staff y practis ac ymwelwyr â'r practis. Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau lleol ar waith yn y practis, er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas at y diben.

Roedd pob rhan o'r practis yn groesawgar ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn rhydd o beryglon amlwg. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn 'lân iawn'.

Roedd yn ymddangos fel pe bai'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan a gwelsom fod pob rhan o'r practis yn fodern ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r staff a phobl a oedd yn ymweld â'r practis yn ddigonol pe byddai tân:

- Roedd y dyfeisiau diffodd tân ym mhob rhan o'r practis wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd contract cynnal a chadw cyfarpar tân ar waith
- Roedd asesiad risg tân wedi cael ei gynnal o fewn y 12 mis diwethaf
- Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân priodol
- Roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng
- Roedd y larymau tân yn cael eu profi'n rheolaidd ac roedd y profion hyn yn cael eu cofnodi
- Gwelsom dystysgrif diogelwch nwy ddilys.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod ymarferion tân wedi cael eu cynnal ond nid oedd modd cadarnhau pryd yn union y cawsant eu cynnal. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod dyddiadau ymarferion tân yn cael eu cofnodi'n briodol.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y labordy deintyddol wedi'i gofrestru â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)<sup>8</sup> i weithgynhyrchu a darparu dyfeisiau deintyddol wedi'u teilwra.

Roedd arwydd dim smygu wedi'i arddangos er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion am ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg. Roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn y practis hefyd er mwyn hysbysu'r staff o'r ffordd orau i amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gweithle.

Gwelsom fod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ac felly roedd staff sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ar gael bob amser. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael er mwyn sicrhau y gellir trin unrhyw unigolion neu gleifion yn y practis yn briodol.

---

<sup>8</sup> Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i wneuthurwyr dyfeisiau deintyddol wedi'u teilwra gofrestru â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).

Gwelsom fod gan y practis bolisi parhad busnes lleol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, a oedd yn nodi cynlluniau wrth gefn a chyfrifoldebau i sicrhau y gall y practis barhau i weithredu'n ddiogel os bydd argyfwng.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod aelod arall o'r staff yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod aelod o'r staff sydd wedi cael hyfforddiant ar gael drwy gydol yr wythnos.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y cofnod ymarferion tân yn cynnwys dyddiadau'r ymarferion.

### Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth bod mesurau rheoli heintiau addas ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05<sup>9</sup>. Roedd yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn fodern ac yn amlwg yn lân, gan ddilyn llwybr dihalogi budr i lân. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod yr awtoclaf<sup>10</sup> yn cofnodi ei gylchoedd yn briodol a bod y staff wedi bod yn cynnal gwiriadau wythnosol priodol er mwyn sicrhau bod y cyfarpar sterileiddio yn gweithio'n briodol ac yn bodloni'r gofynion dilysu. Roedd hyn hefyd yn cynnwys tystiolaeth o dystysgrif arolygu gwaith cynnal a chadw dilys.

Gwelsom fod y staff yn symud offerynnau glân ac offerynnau wedi'u defnyddio yn briodol rhwng y deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi mewn bocsys caeedig er mwyn helpu i atal achosion o groes-halogi. Gwnaethom hefyd nodi bod gan y

---

<sup>9</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

<sup>10</sup> Dyfais yw awtoclaf meddygol sy'n defnyddio ager i sterileiddio offer a gwrthrychau eraill.



practis ddulliau ac adnoddau priodol i sicrhau bod yr offerynnau'n cael eu sterileiddio ymlaen llaw yn gywir fel rhan o'r broses ddihalogi gyffredinol.

Gwelsom fod contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel, a bod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel y tu allan i'r safle. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gan y practis becyn gollyngiadau mercwri.

Cawsom olwg ar gofnodion y staff a gwelsom fod gan bob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio yn y practis statws imiwneiddio derbyniol rhag Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Roedd toiledau staff a chleifion, a chyfleusterau newid ar gael ar lawr gwaelod y practis. Gwelsom fod y toiled yn cynnwys cyfleusterau priodol ar gyfer cynhyrchion mislif a bod digon o le i'r staff storio eitemau personol yn y practis.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom dystiolaeth bod cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis a oedd yn cyrraedd safonau'r Cyngor Dadebru (DU)<sup>11</sup> a bod yr eitemau hyn yn cael eu storio'n briodol. Gwelsom hefyd dystysgrif gwasanaethu ddilys ar gyfer silindr ocsigen y practis.

Gwelsom fod y cyffuriau a'r cyfarpar brys wedi cael eu harchwilio bob wythnos yn y practis a bod yr archwiliadau hyn wedi cael eu cofnodi'n briodol.

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer dadebru a rheoli argyfyngau meddygol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar ddadebru. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR).

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn<sup>12</sup>, er mwyn helpu'r MHRA i fonitro a yw

---

<sup>11</sup> <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

<sup>12</sup> <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

Roedd presgripsiynau preifat yn cael eu llunio gan ddefnyddio system TG a ddiogelir â chyfrinair, felly roeddent yn ddiogel. Roedd cofnod priodol yn cael ei gadw o bob meddyginiaeth a ragnodir.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Roedd gan y practis bolisi diogelu cyfredol ar waith ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Roedd y polisi'n cynnwys manylion cyswllt er mwyn i'r staff roi gwybod yn briodol i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol am unrhyw bryderon.

Y rheolwr cofrestredig oedd arweinydd diogelu y practis, a oedd yn gyfrifol am oruchwylio materion diogelu. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod gwybodaeth am faterion diogelu yn cael ei rhannu drwy sesiynau sefydlu a hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol ac anghlinigol wedi cael hyfforddiant ffurfiol i lefel briodol a bod hyfforddiant gloywi wedi cael ei drefnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Cynghorwyd y practis i lawrlwytho a darllen y fersiwn ddiweddaraf o Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan 2019.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol ym mhob deintyddfa yn fodern ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

Cawsom olwg ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel a gwelsom fod y practis yn cydymffurfio â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Roedd y staff clinigol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd Ïoneiddio

- Roedd polisi ymbelydredd ar waith ac roedd y rheolau lleol<sup>13</sup> wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y cyfyngir ar amlygiad staff i ymbelydredd
- Roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.
- Cafodd archwiliadau o ansawdd delweddu pelydr-x eu cwblhau fel rhan o broses sicrhau ansawdd y practis er mwyn nodi unrhyw broblemau posibl wrth gynnal profion pelydr-x. Yn y sampl o gofnodion a welsom, roedd pob delwedd wedi cael gradd 1 yn yr archwiliad (ansawdd gorau posibl).

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roeddem yn falch o weld tystiolaeth bod y practis wedi cynnal amrywiaeth o archwiliadau er mwyn sicrhau ansawdd y gofal maent yn ei ddarparu i'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys: archwiliadau radiograffig, archwiliadau o gofnodion ac archwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd pob archwiliad wedi cael ei gynnal yn rheolaidd a gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud, lle bo angen, mewn ymateb i'r archwiliadau.

Nodwyd bod y practis wedi cwblhau archwiliad cynhwysfawr ym maes atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, roedd yr archwiliad hwn yn cyfeirio at y Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) drwyddo draw. Byddem yn cynghori'r practis i gwblhau adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru er mwyn sicrhau bod unrhyw fesurau sy'n benodol i Gymru a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) yn cael eu hystyried mewn archwiliadau yn y dyfodol.

---

<sup>13</sup> Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

I gefnogi ymdrechion i wella ansawdd, cawsom wybod bod y practis wedi gwneud cynlluniau gyda phractis arall yn yr ardal i gynnal ymarferion adolygu gan gymheiriaid. Yn ystod trafodaethau â'r prif ddeintydd, dangosodd fod ganddo wybodaeth dda am ddatblygiadau proffesiynol yn ei faes ymarfer ac arbenigedd.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi cydsynio a oedd yn amlinellu sut roedd y practis yn asesu cydsyniad cleifion a'r capasiti ar gyfer triniaeth.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd gan y practis bolisi diogelu a diogelwch data ar waith yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n electronig ar gyfrifiaduron a ddiogelir gan gyfrinair. Caiff copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig eu gwneud yn rheolaidd a'u cadw oddi ar y safle fel y gellir cael gafael ar y data gwreiddiol os oes angen.

### **Cadw cofnodion**

Ar y cyfan, gwelsom fod cofnodion yn cael eu cadw i safon uchel yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom, sy'n cefnogi'r practis i ddarparu gofal o ansawdd i'r cleifion. Y rheswm dros hyn yw bod y cofnodion cleifion a welsom:

- Yn cynnwys nodiadau cleifion clir a oedd wedi'u hysgrifennu'n dda
- Yn cynnwys cofnod cynhwysfawr o hanes meddygol a chymdeithasol y cleifion
- Yn cynnwys tystiolaeth o gyngor effeithiol ar hybu iechyd y geg
- Yn cynnwys archwiliadau o feinweoedd meddal a oedd wedi'u cofnodi'n fanwl
- Yn cofnodi'r cyfiawnhad dros gynnal radiograffau a'u canfyddiadau clinigol bob amser
- Yn cynnwys tystiolaeth o opsiynau triniaeth a gwaith cynllunio triniaeth priodol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda gan y rheolwr cofrestredig a'r prif ddeintydd a oedd yn amlwg drwy gyfarfodydd staff rheolaidd ac arfarniadau staff blynyddol.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda, yn ôl pob golwg, ac roeddent yn cael cyfleoedd hyfforddi priodol ac unigol i'w galluogi i gyflawni eu rolau ac i gefnogi eu datblygiad proffesiynol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Absolute Dental Care yn eiddo ar y cyd i'r prif ddeintydd, sydd hefyd yn cyflawni rôl yr unigolyn cyfrifol, a'r rheolwr cofrestredig. Caiff y practis ei gefnogi gan dîm bach ac ymroddedig o staff clinigol ac anghlinigol.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda, ac roedd dystiolaeth o hyn i'w gweld wrth iddynt ryngweithio â'r cleifion, a thrwy eu cydweithrediad a'u hagwedd drwy gydol y broses arolygu.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant ychwanegol hefyd er mwyn sicrhau bod ei sgiliau a'i gwybodaeth mewn perthynas â rhedeg y practis yn gyfredol o hyd. Roedd hyn yn cynnwys cyrsiau academiaidd a chwsr cynhwysfawr ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) er mwyn diogelu data cleifion yn briodol.

Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau lleol ar waith yn y practis er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y polisïau wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau a bod y staff wedi cael gwybod amdanynt yn ystod eu proses sefydlu.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnïad priodol ar waith ar eu

cyfer. Gwnaethom nodi bod tystysgrifau wedi'u harddangos, sy'n dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

## **Staff ac adnoddau**

### **Y Gweithlu**

At ei gilydd, roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan y staff gontract cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwelsom fod y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. Caiff aelodau newydd o'r staff sesiynau sefydlu a chyfnod prawf.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniadau o leiaf unwaith y flwyddyn a'u bod wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Roedd hi'n gadarnhaol nodi bod y practis yn rhoi pwyslais ar roi cyfleoedd hyfforddi unigol i'r staff, yn unol â'r arbenigedd a nodau datblygu.

Cynhelir cyfarfodydd practis ffurfiol ac anffurfiol yn rheolaidd er mwyn galluogi'r staff i nodi gwersi a ddysgwyd a chodi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Caiff cofnodion eu cymryd o bob cyfarfod a'u hanfon at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff a oedd yn absennol yn ymwybodol o'r hyn a drafodwyd.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn llwyddo i sicrhau bod nifer priodol o staff cymwys yn gweithio yn y practis bob amser, heb fod angen defnyddio nyrsys deintyddol locwm dros dro.

Roedd polisi recriwtio ar waith a oedd yn nodi'r broses i'w dilyn wrth recriwtio darpar aelodau newydd o'r staff ac roedd yn cynnwys gwiriadau cyn-cyflogi priodol y byddai'r practis yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o'r staff yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi'u diogelu'n addas er mwyn gweithio gyda chleifion.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban (lleisio barn) ar waith a oedd yn galluogi'r staff i godi unrhyw bryderon am arferion gwaith a allai effeithio ar ofal

y cleifion. Argymhellwn y dylai'r practis fabwysiadu un safbwynt polisi clir a chynnwys AGIC fel pwynt cyswllt allanol.

Gwelsom fod polisi anafiadau nodwydd ar waith yn y practis, gan gynnwys protocol ar ddefnyddio cyfarpar miniog mwy diogel ac ar anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog, y dylid ei ddilyn pe bai yna anaf yn ymwneud ag offer miniog.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnwys AGIC fel pwynt cyswllt allanol yn ei bolisi chwythu'r chwiban.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach



- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Gwasanaeth:

### Dyddiad arolygu:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (priflythrennau):

### Teitl swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Absolute Dental Care, Dinbych-y-pysgod

### Dyddiad arolygu: 11 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r practis ystyried ffyrdd eraill o alluogi'r cleifion i roi adborth.	Safonau Iechyd a Gofal 2015  6.3 Gwranddo a Dysgu o adborth;	Mae cardiau sylwadau i'r cleifion eu llenwi wedi cael eu dylunio ac maent yn nwylo'r argraffwyr (gweler y PDF atodedig). Caiff y rhain eu gosod yn y dderbynfa, ynghyd â blwch i'w postio ar ôl iddynt gael eu cwblhau, a chânt eu hadolygu bob mis.	Kate Evans	ar unwaith
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r practis sicrhau bod aelod arall o'r staff yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod aelod o'r staff sydd wedi cael hyfforddiant ar gael drwy gydol yr wythnos.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch;  Rheoliadau	Mae dau aelod o'r staff eisoes wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Mae'n bosibl y bu camddealltwriaeth yn ystod yr arolygiad gan fod GC newydd gael hyfforddiant Cymorth Cyntaf a hi, felly,	Kate Evans	Cwblhawyd yn barod

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis sicrhau bod y cofnod ymarferion tân yn cynnwys dyddiadau'r ymarferion.	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017  a 17(a)  a 22	oedd y swyddog Cymorth Cyntaf enwebedig.  Caiff dyddiadau penodol eu cofnodi yn hytrach na dim ond y mis a'r flwyddyn.	Kate Evans	Cwblhawyd
Dylai'r practis gwblhau adnodd archwilio WHTM Addysg a Gwella Iechyd Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried unrhyw fesurau sy'n benodol i Gymru.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol;  Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017  a 16	Byddaf yn defnyddio'r adnodd archwilio hwn yn y dyfodol. Fodd bynnag, roeddwn wedi defnyddio adnodd archwilio Cymdeithas Ddeintyddol Prydain sy'n ymdrin â'r holl feysydd y mae angen eu cynnwys mewn archwiliad rheoli heintiau. Fe wnes i gymharu'r ddau archwiliad ac maen nhw'n cynnwys yr un wybodaeth ond mewn trefn wahanol.	Kate Evans	Ar adeg yr archwiliad nesaf ym mis Ebrill 2020
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r practis gynnwys AGIC fel pwynt cyswllt allanol yn ei bolisi chwythu'r chwiban.	7.1 Y Gweithlu;	Mae polisi chwythu'r chwiban y practis wedi cael ei ddiweddarau bellach i gynnwys AGIC fel cyswllt allanol.	Kate Evans	Cwblhawyd yn barod

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Kate Evans**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 28/01/2020**